

CYNGOR BRO LLANGELER-28:07:2014

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Gorffennaf 28ain 2014 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **07/14 PRESENNOL:** Cynghorwyr. Adrian Thomas[Cadeirydd], John Crossley, Ian Davies, Delyth Evans, Brenda Jones, Christopher Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Dilwyn Smith, John Wigley. Cyng.Sir - K Howell, Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyfieithydd, PC I Ayres, PCSO J Kedward ?????
2. **07/14 HEDDLU:** dwedodd PC I Ayers bod Heddlu Traffig wedi cael gwybodaeth am y ceir sy'n goryrru yn yr ardal. Dwedwyd bod y car oedd yn parcio ger Ger y Ffynnon wedi cael tocyn ac mae'r mater wedi cael ei drosglwyddo i'r adran gyfreithiol.
3. **07/14 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Jamie Ayres, N Jones, C Roberts
4. **07/14 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Mehefin 30ain 2014 a'u cael yn gywir.
Cynigydd – Cyng. J Crossley
Eilydd – Cyng. C Jones
5. **07/14 DATGANIADAU DIDDORDEB :-**
6. **07/14 MATERION YN CODI :**
7.v.04/14. Ymgrych Glanhau Sir Gaerfyrddin – Bu Cyng B Jones, C Jones, I Davies , A Thomas a'r Clerc ynghyd a phlant Blwyddyn 6 Ysgol Penboyr yn codi sbwriel drwy'r pentref ar y 10ed o Orffennaf. Diolchodd y Cadeirydd am eu gwaith.
12.v.05/14 ateb wrth J McEvoy a M Jacob ynghylch arwydd cyflymder Pentrecagal – Gorchymyn yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau Gorffennaf ac yna bydd 3 wythnos gan y cyhoedd i wrthwynebu
7. **07/14 GOHEBIAETH:**
 - i. e-bost – Arolwg Blynyddol Cymru - cylchlythyrwyd
 - ii. e-bost – Bwletin Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – cylchlythyrwyd
 - iii. e-bost – Bwletin Rhanbarthol – Simon Thomas AC – cylchlythyrwyd
 - iv. e-bost – Diweddariad Ariannol – cylchlythyrwyd
 - v. e-bost – *WLG A Review of Governance, Carmarthenshire County Council* – cylchlythyrwyd
 - vi. e-bost – Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – 6.15/6.30yh 30 Medi yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
 - vii. e-bost – Bwletin Rhanbarthol – Simon Thomas AC – cylchlythyrwyd
 - viii. e-bost – Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol – cylchlythyrwyd
 - ix. EN020016 Brechfa Electrical Connection – Cais Ffurfiol am Farn Rhychwantu - cylchlythyrwyd
 - x. ULIC – Tipio anghyfreithlon – diweddariad – cylchlythyrwyd
 - xi. Ceredigion - Ymgynghori ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) – cylchlythyrwyd
 - xii. Cyfle gwirfoddoli - Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr – cylchlythyrwyd
 - xiii. CSG –Gwahoddiad - Eisteddfod Genedlaethol a Chyngor Sir Gâr yn cynnal byrbryd ar y cyd ym Mwyty Pl@iad ar Faes y Brifwyl ar ddydd Sadwrn, 2ail o Awst am 12.30 – cylchlythyrwyd
 - xiv. ULIC – Model Reolau Sefydlog Diwygiedig - Revised Model Standing Orders - cylchlythyrwyd
 - xv. e-bost - CSG – Llwybrau Diogel yn y Gymuned - cylchlythyrwyd
 - xvi. e-bost – Poster Cerddwch Ddeg Milltir – i Marie Curie – cylchlythyrwyd
 - xvii. e-bost– ULIC Dogfen Ymgynghori llywodraeth Cymru – cylchlythyrwyd
 - xviii. ULIC – Gynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014 –
 - xix. Croeso i'r Eisteddfod! Neuadd Gymunedol Llanerch Community Hall, Llanelli - cylchlythyrwyd
 - xx. Cynllun Datblygu Lleol – cydnabyddiaeth o'r llythyr a anfonwyd gan y Clerc
 - xxi. CSG – Rhybudd Cyhoeddus – Gosod Cyfyngiad Cyflymder o 30mya ym Mhentreagal

8. 07/14 CYNLLUNIO

CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI

Caniatâd

W/29838 – Adam Booth, Penrhiw, Felindre SA44 5XU – ffrâm cludadwy i storio defnyddiau trael peiriannau

W/29842 – Mr J Baldwin, Tegfan , Danhiraeth Rd, Velindre SA44 5XJ – estyniad llawr cyntaf a newidiadau i'r llawr cyntaf i ychwanegu at uchdwr y llawr cyntaf ac arwynebedd llawr

W/29943 – Mr & Mrs Morgan, Cwmdrwr, Cwmpengraig SA44 5HW – estyniad

Cais Ymgynghori llawn

Dim

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

9. 07/14 MATERION ARIANNOL

a. Derbyn Cyfrifon ar ôl cael eu archwilio'n allanol – arwyddwyd gan y Cadeirydd

b. Anfonebau

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 28/07/2014£????
- ii. HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH– cyfarfod 28/07/14£????
[caniatad i dalu'r ddau uchod feldaw'r taleb fewn]
- iii. Caniatad i dalu am inc i'r argraffydd
Arian yn y Banc ar 09/07/2014.....£15,638.54

c. Cais an Gefnogaeth Ariannol

Cffi Sir Gâr – cynigwyd i beidio y tro yma

10. 07/14 ADRODDIAD PWYLLGOR

Dim un adroddiad

11. 07/14 MATERION ANGEN TRAFODAETH

- i. Cadwyn y Cadeirydd – yn dilyn trafodaeth cynigwyd i'r Cyng J Wigley i ddod a rhyw syniadau am welliant ar gyfer y cyfarfod nesaf.
- ii. Cofio'r Rhyfel Byd 1af – is bwyllgor i gyfarfod i wneud trefniadau ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio ar 9/11/14
- iii. Ffyrdd o Godi Arian i Bwyllgor Parc – Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r ddau barc i gyfarfod nesaf y cyngor.
- iv. Llinell Drydan drwy Cwmins Rhos – Clerc i roi gwybod i Dion Mobbs Webb am yr hyn bydd y Bwrdd trydan yn gwneud i dorri'r coed yn ôl

12. 07/14 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

- i. Cyng J Crossley – nododd bod y r ategion i'r polyn trydan oedd yn achosi rhwystr ar y palmant ac ym Marc Puw wedi cael eu symud
- ii. Cyng D Evans – problem gyda'r ffynnon ger Ffynnondudur yn achosi problem – Cyng K Howell i ddelio â'r mater.
- iii. Cyng J Wigley – a) angen atgoffa'r Cyngor Sir am y gwaith sydd angen ei wneud ger Meysydd
 - b) gor dyfiant o goed tu allan i Bryngwyn, Cwmduad bron ag achosi damwain – Clerc i gysylltu a Chyngor cymuned Cynwyl Elfed
 - c) nododd bod angen tynnu'r baneri lawr ynm mhentref Felindre – dwedwyd y byddent yn cael eu tynnu lawr ar ôl yr eisteddfod genedlaethol.
 - ch) nododd bod y tyllau yn yr hewl allan i TyCoch wedi'u llenwi.
- iv. Cyng B Jones – pryder ar rhan gorsaf yr heddlu yn cau – Clerc i anfon llythyr ar rhan y Cyngor.
- v. Cyng K Howell – dwedodd byddai Toiledau Drefach yn cau ar ddiwedd mis Awst

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Medi 29ain 2014, am 7.30y.h yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10y.h

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

